**From:** edwvalleydesigns info@edwvalleydesigns.co.uk
**Subject:**
**Date:** 30 April 2021 at 12:00
**To:**




### Ffigurau Covid-19

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi ar 28 Ebrill mai nifer yr achosion o'r coronafeirws wedi'u cadarnhau yng Nghymru yw **211,458.** Cyfanswm yr achosion ym Mhowys ar 28 Ebrill yw **4,177.**

Yn ôl ffigurau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar nifer y rhai fu farw ym Mhowys yn llwyr neu'n rhannol o ganlyniad i COVID-19, wedi'u cofrestru hyd at 24 Ebrill oedd **269** – roedd un farwolaeth yn gysylltiedig â COVID-19 yn ystod yr wythnos.  Bu 84 o farwolaethau mewn cartrefi gofal,12 gartref, un mewn hosbis a 172 yn yr ysbyty.

### Powys yn ehangu'r arwyddion a symptomau'r Coronafeirws

Gall pobl sy'n byw ym Mhowys nawr fynd am brawf Coronafeirws am ddim os oes ganddynt amrywiaeth ehangach o symptomau. Yn ogystal â'r tri symptom clasurol: tymheredd uchel, peswch parhaus newydd neu golli/newid blas ac arogl; mae pobl bellach yn gallu cael prawf os oes ganddynt symptomau eraill hefyd, sef:

- Symptomau tebyg i ffliw gan gynnwys unrhyw un neu bob un o'r canlynol: poenau; blinder;

### Covid-19 figures

Public Health Wales has reported as of April 28 the confirmed number of coronavirus cases in Wales is **211,458.** The total number of cases for Powys as at April 28 stands at **4,177.**

Figures issued by the Office of National Statistics (ONS) on the number of deaths in Powys attributed, either wholly or in part to COVID-19, registered up to April 24 was **269** – there was one COVID-19 related death in the week. There have been 84 deaths in care homes,12 at home, one in a hospice and 172 in hospital.

### Powys Expands list of signs and symptoms for Coronavirus

People living in Powys can now go for a free Coronavirus test if they have a wider range of symptoms. As well as the three classic signs: fever, a new continuous cough or a loss/change of taste and smell; people are now able to get a test if they have other symptoms.

These are:

- Flu-like symptoms including any or all of: aches or pains; tiredness; headache; runny nose or blocked nose; sneezing; sore throat; shortness of breath;

cur pen; trwyn sy'n rhedeg neu wedi'i flocio; tisian; dolur gwddf; bod yn fyr eich anadl; cyfog; colli archwaeth am fwyd; dolur rhydd neu chwydu

- Teimlo'n sâl yn gyffredinol neu wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi profi'n bositif am COVID-19
- Unrhyw symptomau newydd neu newid mewn symptomau yn dilyn prawf negyddol blaenorol

Gall pobl sydd wedi cael unrhyw un o'r symptomau clasurol neu unrhyw un o'r symptomau ehangach newydd ac a hoffai archebu prawf wneud hynny ar-lein yn www.llyw.cymru/cael prawf-coronafeirws-covid-19 neu drwy ffonio 119, neu 18001 119 am bobl ag anawsterau clyw neu leferydd. Dyma'r ffordd o ofyn am becyn profi cartref hefyd.

**Diweddariadau Llywodraeth Cymru**

Gall gwirfoddolwyr neu'r rhai sydd ddim yn gallu gweithio o gartref archebu pecyn profi gartref llif unffordd ar-lein.

O ddydd Llun 26 Ebrill gall gwirfoddolwyr a'r rheiny sy'n methu gweithio gartref archebu pecyn profi gartref llif unffordd wedi'i ddosbarthu'n uniongyrchol i'w cartref. https://llyw.cymru/cael-profion-llif-unffordd-covid-19-cyflym-os-nad-oes-gennych-symptomau

Nifer yr unigolion yng Nghymru sydd wedi derbyn y dos cyntaf o frechlyn COVID-19 ar 28 Ebrill yw**1,816,415**. Mae nifer y bobl ym Mhowys sydd wedi cael eu dos cyntaf dros **91,300** ac mae **41,000** wedi derbyn eu hail-ddos.

nausea; loss of appetite; Diarrhoea or vomiting

- Generally feeling unwell or have been in contact with a known COVID-19 case
- Any new or change in symptoms following a previous negative test

People who have had any of the classic signs or any of the new wider symptoms and would like to book a test can do so online at www.gov.wales/getting-tested-coronavirus-covid-19 or by calling 119, or 18001 119 for people with hearing or speech difficulties. This is also the way to request a home testing kit.

**Welsh Government Updates**

Volunteers and those unable to work from home can order a lateral flow self-test kit online

From Monday 26th of April volunteers and those who are unable to work from home can order a lateral flow self-test kit to be delivered direct to their home. https://gov.wales/get-rapid-lateral-flow-covid-19-tests-if-you-do-not-have-symptoms

Individuals in Wales who have received first dose of COVID-19 vaccine as at April 28 stands at **1,816,415**. The number Powys people who have had their first dose stands at more than **91,300** with second dose numbers standing at **41,000.**

Mae'r e bost hwn ac unrhyw atodiad iddo yn gyfrinachol ac fe'i bwriedir ar gyfer y sawl a enwir arno yn unig. Gall gynnwys gwybodaeth freintiedig. Os yw wedi eich cyrraedd trwy gamgymeriad ni ellwch ei gopio, ei ddosbarthu na'i ddangos i unrhyw un arall a dylech gysylltu gyda Cyngor Sir Powys ar unwaith. Mae unrhyw gynnwys nad yw'n ymwneud gyda busnes swyddogol Cyngor Sir Powys yn bersonol i'r awdur ac nid yw'n awdurdodedig gan y Cyngor.

This e mail and any attachments are confidential and intended for the named recipient only. The content may contain privileged information. If it has reached you by mistake, you should not copy, distribute or show the content to anyone but should contact Powys County Council at once. Any content that is not pertinent to Powys County Council business is personal to the author, and is not necessarily the view of the Council.